



## Ffurflen Gais Llywodraethwyr Ysgol y Berllan Deg.

### Swydd Wag Gwirfoddolwr: Llywodraethwr Ysgol – Marchnata a Chyflawni Busnes

Ydych chi'n ymarferwr marchnata egnïol a llawn cymhelliant sydd eisiau datblygu eich sgiliau strategol ac ennill profiad lefel bwrdd ar gyfer eich CV?

Rydym yn datblygu strategaeth farchnata 5 mlynedd i ddenu disgyblion newydd i'n hysgol gynradd Gymraeg. Efallai nad yw llawer o rieni lleol wedi ystyried manteision dewis ein hysgol fodern, gyfeillgar a chyflawn. Mae hyn oherwydd mai eu dewis 'diofyn' yw eu hysgol cyfrwng Saesneg leol. Felly, rydym yn bwriadu cynnal ymgyrchoedd i amlygu ein harlwy ragorol a goresgyn eu hofnau ynghylch dysgu drwy'r Gymraeg.

Byddwch yn ymuno â thîm profiadol gyda phrofiad marchnata felly byddwch yn cael cefnogaeth dda. Mae angen fflêr arweinyddiaeth arnoch a'r gallu i gadw momentwm rhwng cyfarfodydd llawn y corff llywodraethu. Cynhelir cyfarfodydd llawn y corff llywodraethu fin nos, wyneb yn wyneb yn Ysgol y Berllan Deg, Circle Way East, Llanedern, CF23 9LD.

Mae hwn yn gyfle delfrydol i gael profiad ymarferol o ddatblygu ac arwain strategaeth hirdymor a chreu astudiaeth achos marchnata go iawn o'r dechrau i'r diwedd. Does dim rhaid i chi allu siarad Cymraeg, er y byddai hyn o fantais.

I wneud cais am y swydd, cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd i LlywodraethwyrL5@hwbcymru.net **erbyn dydd Gwener 28 Chwefror 2025** Os hoffech drafod eich cais ymhellach neu gael sgwrs anffurfiol gychwynnol, cysylltwch â'r Cadeirydd, Wyn Griffiths ar 07785 355 552.

### Ysgol y Berllan Deg

Mae Ysgol y Berllan Deg yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda dau ddosbarth y flwyddyn a thros 30 aelod o staff. Wedi'i sefydlu yn 2003, rydym yn ffodus i gael ein lleoli mewn adeilad modern gyda thiroedd hael gan gynnwys ardaloedd dysgu a chwarae awyr agored helaeth. Dan arweiniad ein pennaeth ymroddedig a gweithgar, mae'r staff sydd wedi gwasanaethu ers amser maith yn creu awyrgylch teuluol diogel ac yn cyflwyno cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol. Ym mis Gorffennaf 2023 daethom yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyntaf Caerdydd i ennill achrediad Ysgol Noddfa am greu amgylchedd croesawgar lle mae disgyblion, staff a'u cymunedau ehangach yn deall beth mae'n ei olygu i geisio noddfa.

<https://www.ysgolyberllandeg.cymru/>

Mae'r corff llywodraethu yn cynnwys 4 llywodraethwr a benodwyd gan yr awdurdod lleol, 5 rhiant llywodraethwr etholedig a 4 llywodraethwr cymunedol. Mynychir y cyfarfod hefyd gan y pennaeth, dirprwy bennaeth, cynrychiolydd staff addysgu, cynrychiolydd staff cymorth a'n cofnodwr. Cynhelir y cyfarfodydd trwy gyfrwng y Saesneg.

## Sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn

### Pa fathau o bobl sy'n gwneud llywodraethwyr da?

Mae Llywodraethwyr yn dod â chyfoeth o brofiadau o sawl cefndir gwahanol i'r corff llywodraethu. Mae cryfder unrhyw lywodraethwyr yn dibynnu ar fwy na gwybodaeth fanwl neu arbenigedd addysgol; mae rhinweddau a sgiliau bywyd eraill yr un mor bwysig megis bod yn ddiplomyddol, barn gytbwys, synnwyr cyffredin, ymroddiad i godi safonau a gwir ymrwymiad i'r disgyblion, staff a'r gymuned.

### Beth mae llywodraethwyr ysgol yn ei wneud?

Mae bod yn llywodraethwr ysgol yn heriol ond yn werth ei wneud. Mae'n rhaid i lywodraethwyr fod â digon o amser i ymroi i'w rôl, bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd, gweithredu gyda'r bwriad gorau ac yn gyfrinachol ar bob adeg, a sicrhau eu bod yn rhoi eu penderfyniadau ar waith. Mae'r prif rolau'n cynnwys:

- Pennu cyfeiriad, nodau, polisiau a blaenoriaethau cyffredinol yr ysgol;
- Monitro perfformiad a sicrhau'r safonau uchaf o ran cyflawniad addysgol, presenoldeb ac ymddygiad, gan gynnwys yr adolygiad trylwyr o ddata perfformio;
- Bod yn "gyfaill beirniadol" a phennu targedau cyflawniad y gellir mesur cynnydd disgyblion yn eu herbyn;
- Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys a bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni;
- Cymryd rhan yn yr holl brosesau sy'n ymwneud â materion staffio gan gynnwys tâl, penodiadau staff, rheoli perfformiad, gwaharddiadau, materion disgyblu a diswyddo a chwynion;
- Gofalu am les dysgwyr a'u diogelu

### Faint o amser y bydd ei angen arnaf i fod yn llywodraethwr?

Bydd yn ofynnol i lywodraethwyr fynychu o leiaf dri chyfarfod y corff llywodraethu y flwyddyn, chwech ohonynt fel arfer. Cynhelir y cyfarfodydd yn yr ysgol ac maent yn para rhyw dwy awr, fel arfer gyda'r nos. Efallai y cynhelir rhagor o gyfarfodydd ac mae'n bwysig bod llywodraethwyr yn gwneud pob ymdrech i fod yn bresennol bob amser. Disgwylir i lywodraethwyr ymuno ag is-bwyllgorau sy'n delio â materion a meysydd gwaith penodol. Bydd hynny'n golygu mwy o gyfarfodydd ond gall fod yn gyfle i gael golwg fwy manwl ar feysydd eraill o waith yr ysgol, megis cyllid, iechyd a diogelwch, y cwricwlwm ac ati.

### Beth yw'r manteision posibl i mi?

Gall bod yn llywodraethwr ysgol gynnig llawer o foddhad drwy roi cyfle i wneud gwahaniaeth a gwella effeithiolrwydd y gwaith o redeg ysgol. Mae llywodraethwyr yn gweithio fel aelodau o dîm ac yn cyfrannu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn gwneud penderfyniadau ar ran yr ysgol. Fel llywodraethwyr, bydd cyfle i chi feithrin sgiliau a magu profiad a allai fod o fantais i chi yn eich bywyd personol a phroffesiynol. Darperir hyfforddiant am ddim drwy Wasanaethau Llywodraethwyr Caerdydd bob tymor ar nifer o faterion sy'n berthnasol i waith llywodraethwr.

Cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd i LlywodraethwyrL5@hwbcymru.net . Os hoffech drafod eich cais ymhellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Wyn Griffiths ar 07785 355 552.

## Manylion Personol

Teitl:		Cyfenw:		Enwau Cyntaf:	
--------	--	---------	--	------------------	--

<b>Manylion Cyswilt y Cartref</b>	<b>Manylion Cyswilt yn y Gwaith (Ile y bo'n briodol)</b>
-----------------------------------	--

**Sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn**

Cyfeiriad:		Enw a Chyfeiriad Cyflogwr:	
Post Code			
Ffôn Cyflogai:		Ffôn Cyflogai:	
Rhif ffôn Symudol:			
E-bost:		E-bost:	

Teitl eich swydd / disgrifiad byr (lle y bo'n briodol):	<b>Error! Not a valid bookmark self-reference.</b>
---	--

Manylion Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant Blaenorol	<p><b>Error! Not a valid bookmark self-reference.</b></p> <p>Mae croeso i chi atodi CV yn lle llenwi'r adran hon. Fel rhan o'n Proses Recriwtio Mwy Diogel, sicrhewch nad oes unrhyw fylchau anesboniadwy yn eich hanes cyflogaeth</p>
--	--

**Sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn**

**Ydych chi wedi bod yn llywodraethwr erioed o'r blaen? Os ydych, ym mha ysgol(ion) oeddech chi'n llywodraethwr a pha bryd y daeth eich cyfnod o wasanaeth i ben?**

**Ydych chi erioed wedi cael eich diarddel neu eich gwahardd o gorff llywodraethu? Os do, rhowch fanylion:**

**A oes gennych unrhyw gysylltiadau ag ysgolion Caerdydd? Os felly, rhowch fanylion:**

<b>Ydych chi'n siarad wrthydd eiddo y llywodraethwr ysgol? (Llywodraethwyr newydd yn unig) (100-200 o eiriau)</b>	<b>Ych</b>	<b>Nae</b>
---	------------	------------

Sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn

Pa rai o'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad hyn sy'n ddefnyddiol i gyrff lywodraethu allech chi eu cynnig?

<b>Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cyffredinol</b>	<b>Sylfaenol</b>	<b>Canolig</b>	<b>Helaeth</b>
Arweinyddiaeth			
Cadeirio cyfarfodydd			
Cwynion/achwyniadau/apeliadau			
Cyfathrebu			
Cynllunio Strategol			
Cysylltiadau cymunedol			
Dadansoddi Data			
Gwneud Penderfyniadau			
Herio gweithdrefnau			
Hunanwerthuso			
Hyfforddi/mentora			
Llywodraethu			
Monitro penderfyniadau/canlyniadau/perfformiad			
Negodi/cyfryngu			
Recriwtio Staff			
Rheoli Perfformiad			
<b>Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol</b>	<b>Sylfaenol</b>	<b>Canolig</b>	<b>Helaeth</b>
Addysgu a Dysgu			
Adnoddau dynol			
Caffael/prynu			
Codi Arian			
Cydraddoldebau			
Cynhwysiant/Anghenion Dysgu Ychwanegol			
Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata			
Diogelu			
Gwella ysgolion			
Gwerthu/manwerthu/gwasanaethau			
Gwirfoddoli			
Gwyddoniaeth a Thechnoleg			
Iechyd a Diogelwch			
Iechyd a Lles			
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu			
Rheolaeth Ariannol			
Rheoli prosiectau			
Rheoli safle/cyfleuster			
TGCh a Digidol			
Y Celfyddydau Mynegiannol			
Y Gyfraith			

## Sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn

Rhowch fanylion am unrhyw brofiad arall sy'n berthnasol i'ch cais yn eich barn chi.

Rwyf wedi darllen y wybodaeth atodedig am y disgwyliadau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y gwaith a wneir gan lywodraethwr/corff llywodraethu a hoffwn ychwanegu'r wybodaeth ganlynol i ategu fy nghais:

A wnewch chi roi manylion cyswllt dau berson y gallwn ofyn iddynt roi geirda i chi.  
(nid yw'n briodol i awgrymu aelodau o'r teulu neu ffrindiau)

<b>Enw</b>	<b>Enw</b>
<b>Cyfeiriad</b>	<b>Cyfeiriad</b>
<b>Ffôn</b>	<b>Ffôn</b>
<b>E-bost</b>	<b>E-bost</b>
<b>Ym mha gyd-destun y mae'r person hwn yn eich adnabod chi?</b>	<b>Ym mha gyd-destun y mae'r person hwn yn eich adnabod chi?</b>

Llofnodwch isod i gadarnhau eich bod:

- wedi darllen a deall y disgwyliadau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y gwaith a wneir gan lywodraethwr/corff llywodraethu;
- yn barod i gyflawni cyrsiau hyfforddiant gorfodol a phriodol i sicrhau eich bod yn deall natur y rôl, a pharhau i wneud hynny yn ystod eich cyfnod o wasanaeth;
- yn deall y gofynnir i chi wneud cais am dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- yn gymwys i ddod yn llywodraethwr ac nad yw'r eithriadau a nodir ar dudalen 9 yn berthnasol i chi;
- yn cytuno y gellir rhoi eich ffurflen gais i Gorff Llywodraethu eich ysgol o ddewis
- yn cytuno y gall yr Awdurdod Lleol gofnodi a defnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennych ar y ffurflen hon yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

A wnewch chi lofnodi neu roi eich enw yn y blwch i gadarnhau eich bod yn cytuno â'r uchod:	<b>x</b>	Dyddiad:
--	----------	----------

Cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd i LlywodraethwyrL5@hwbcymru.net . Os hoffech drafod eich cais ymhellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Wyn Griffiths ar 07785 355 552.

**Caiff y data a gesglir yn y ffurflen hon ei ddefnyddio at ddibenion recriwtio a phenodi. Caiff ei rannu gyda swyddogion y Cyngor, aelodau Panel Llywodraethwyr yr ALI ac wrth benodi gyda Phennaeth, Cadeirydd a Chlerc yr ysgol(ion) a ffefrir gennych a'i brosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018. I gael rhagor o wybodaeth ar sut rydym yn prosesu eich data personol gweler ein Polisi**

## Sicrhewch fod yr holl adrannau wedi'u cwblhau'n llawn

### Preifatrwydd.

Ar ôl eich apwyntiad caiff y ffurflen hon ei difetha ar ddiwedd eich cyfnod yn y rôl neu ar ôl blwyddyn os buoch yn aflwyddiannus yn sicrhau rôl fel llywodraethwr.

Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data am fwy o wybodaeth:

Swyddog Diogelu Data, Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW  
diogeludata@caerdydd.gov.uk

### Yr hyn a ddisgwylir gan lywodraethwyr ysgol:

- diddordeb brwd ym maes addysg a gwella ysgolion;
- ymrwymiad i roi o'u hamser i baratoi ar gyfer a mynychu'r holl gyfarfodydd a chyflawni'r camau gweithredu;
- parodrwydd i gyflawni'r holl gyrsiau hyfforddiant angenrheidiol a diweddarau eich gwybodaeth yn y maes;
- y gallu i weithio fel aelod o dîm;
- y gallu i dreulio amser yn dod i adnabod yr ysgol drwy ymweliadau llywodraeth cyswllt/teithiau cerdded dysgu;
- parchu cyfrinachedd ar bob adeg;
- sgiliau cyfathrebu, tact a doethineb;
- cydymffurfio â Chod Ymddygiad eich Corff Llywodraethu/Egwyddorion Ymddygiad Llywodraethwyr Cymru

### Cyfrifoldebau craidd y Corff Llywodraethu:

- ❑ **Safonau** - monitro perfformiad a sicrhau'r safonau uchaf o ran cyflawniad addysgol, presenoldeb ac ymddygiad, gan gynnwys yr adolygiad trylwyr o ddata perfformio;
- ❑ **Targedau** - gweithredu fel "cyfaill beirniadol" a phennu targedau cyflawniad y gellir mesur cynnydd disgyblion yn eu herbyn;
- ❑ **Cwricwlwm** - sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys a bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni;
- ❑ **Pennu nodau, polisiau a blaenoriaethau'r ysgol**- cyfrannu at y Cynllun Gwella Ysgol, Hunanwerthusiad yr Ysgol ac adnewyddu a chymeradwyo polisiau a dogfennau statudol;
- ❑ **Cyllid** – pennu a monitro cyllid yr ysgol
- ❑ **Staffio** – pennu nifer y staff a chyfrannu at yn yr holl brosesau sy'n ymwneud â materion staffio gan gynnwys tâl, penodiadau staff, rheoli perfformiad, gwaharddiadau, materion disgyblu a diswyddo a chwynion;
- ❑ **Rhoi gwybodaeth i rieni** - Adroddiad Blynyddol i Rieni, Prosbectws yr Ysgol a chyfarfodydd y gofynnir amdanynt gan y rhieni;
- ❑ **Paratoi ar gyfer Arolwg a chyflawni'r chamau dilynol** – gan gynnwys llunio cynllun gweithredu a monitro cynnydd yn dilyn Arolwg Estyn;
- ❑ **Lles a diogelwch dysgwyr gan gynnwys hyrwyddo cynlluniau Bwyta'n Iach;**
- ❑ **Ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu o ran materion cydraddoldeb a lle i chwilio am gyngor;**
- ❑ **Gwerthuso perfformiad y Corff Llywodraethu ei hun yn ôl y gofyn.**

## Hyfforddiant

Mae'n rhaid i lywodraethwyr newydd fynychu sesiwn sefydlu a chwblhau hyfforddiant ar ddadansoddi ddata cyn pen 12 mis o'u penodi. Darperir yr hyfforddiant hwn gan yr Awdurdod Lleol a rhoddir gwybodaeth am hyn ar yr adeg y gwneir y penodiad. Darperir hyfforddiant hefyd bob tro ar nifer o faterion sy'n berthnasol i waith llywodraethwr a chaiff manylion llawn eu cyhoeddi gan yr Awdurdod Lleol.

## Pwy all wasanaethu fel llywodraethwr ysgol?

Caiff unrhyw un dros 18 oed wasanaethu fel llywodraethwr, ond mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 yn nodi rhai eithriadau.

***Ni fyddwch yn gymwys i ddod yn llywodraethwyr neu barhau â'ch swydd fel llywodraethwyr os yw unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi:***

1. Rwy'n bwriadu gwneud cais am swydd ychwanegol fel llywodraethwr yn yr ysgol yr wyf eisoes yn llywodraethwr ynddi;
2. Rydych eisoes yn llywodraethwr mewn dwy ysgol;
3. Rydw yn gweithio fel clerch i'r corff llywodraethu yn yr ysgol yr ydych yn ymgeisio amdani;
4. Rwyf wedi cael fy ngwahardd rhag gwasanaethu fel llywodraethwr yn yr ysgol yr wyf yn gwneud cais amdani yn ystod y 12 mis diwethaf am ddiffyg presenoldeb;
5. Rydych yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn dros dro;
6. Mae eich eiddo wedi'i atafaelu ac nid yw'r gorchymyn atafaelu wedi'i ryddhau, ei ddirymu neu ei ddileu;
7. Rydych yn destun:
  - i. Gorchymyn gwahardd neu waharddiad dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.
  - ii. Gorchymyn gwahardd dan Ran 2 Gorchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1989
  - iii. Gwaharddiad dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 2002.
  - iv. Gorchymyn a wnaed dan adran 492(2)(b) Deddf Ansoffedd 1986 (methu â thalu dan Orchymyn Gweinyddu Llys Sirol)
9. Rydych wedi'ch gwahardd rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr elusen neu ymddiriedolwr ar ran elusen gan y Comisiynwyr Elusen neu Uchel Lys ar sail unrhyw gamymddwyn neu gamweinyddu dan adran 7 Deddf Diwygiadau Cyfreithiol (Darpariaethau Amrywiol) (Yr Alban) 1990 ac ni chewch reoli na llywio unrhyw gorff;
10. Mae eich enw ar y rhestr o bobl y mae eu cyflogi wedi'i wahardd neu ei gyfyngu dan Adran 1 Deddf Amddiffyn Plant 1999;
11. Rydych yn anghymwys i weithio gyda phlant neu rydych yn destun cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru dan adran 142 Deddf Addysg 2002;
12. Rydych wedi'ch gwahardd rhag bod yn berchennog ysgol annibynnol;
13. Rydych wedi cael dedfryd o garchar (boed yn ohiriedig neu beidio) am gyfnod o dri mis neu fwy (heb y dewis o gael dirwy) yn ystod y pum mlynedd cyn dod yn llywodraethwr neu ar ôl dod yn llywodraethwr;
14. Rydych wedi'ch dedfrydu i garchar am ddwy flynedd a hanner neu fwy yn ystod yr 20 mlynedd cyn dod yn llywodraethwr;
15. Rydych wedi cael dedfryd o garchar o bum mlynedd neu fwy ar unrhyw adeg;
16. Rydych wedi cael dirwy am achosi poendod neu helynt ar eiddo ysgol yn ystod y pum mlynedd cyn neu ar ôl eich penodi neu ethol fel llywodraethwr;
17. Rydych yn awrthod cais gan gorff llywodraethu ar unrhyw adeg i wneud cais